## SYLWADAU AR Y CYNNIG PARTH PERYGL NITRADAU (NVZ)

Rydym ni'n grŵp cymunedol sy'n cael ei arwain gan ffermwyr sy'n byw ac yn gweithio ger Aber Afon Dyfi.

**Mae'r cynigion diweddaraf ar gyfer Parthau Perygl Nitradau (NVZ) yn swnio fel diwedd ffermwyr bach yng Nghymru, gan y byddai angen i ni fuddsoddi o leiaf £50,000 ar gyfartaledd mewn cyfleusterau storio newydd. Mae hyn tu hwnt i gyrraedd y rhan fwyaf ohonom sydd ond yn gallu crafu bywoliaeth o'r tir fel y mae hi ar hyn o bryd. Mae hyn, ynghyd â chyflwyniad cynllun ariannu newydd ar ôl Brexit, yn achosi pryder mawr i ni o ran dyfodol ein bywoliaeth, ein teuluoedd, cymunedau a'n diwylliant (yn enwedig yr iaith Gymraeg).**

Rydym ni'n deall bod ein gweithredoedd yn gallu effeithio'r tir o'n cwmpas ac rydym ni'n gweithio'n ofalus i leihau effaith ein dulliau ffermio a'n hymddygiad. Rydym ni wedi llwyddo i wneud hynny - mae dau o'r arolygon ecolegol diweddaraf a gomisiynwyd gennym yn ymwneud â'n hafonydd lleol a'n hadar yn dangos bod gennym ni lefel wych o fioamrywiaeth, sy'n adlewyrchu dŵr, aer a chynefinoedd o ansawdd uchel, yn ogystal â'r gofal y mae ffermwyr yn ei roi i'r tir ar gyfer y genhedlaeth bresennol a chenedlaethau'r dyfodol.

Mae lefelau'r infertebratau dangosol yn **dangos bod afonydd Dyfi a Chwrt yn cynnwys dŵr glân o "ansawdd uchel"** ac mae arolwg adar wedi canfod bod gennym ni'r **nifer uchaf o rywogaethau adar o unrhyw safle arall** a arolygwyd ym Mynyddoedd y Cambria.

Felly mae'n rhaid ein bod ni'n gwneud rhywbeth yn iawn.

**Pam cyflwyno mesurau llym a fydd yn cosbi pob un ohonom er mwyn targedu'r nifer fach o bobl nad ydynt yn cydymffurfio?**

**Oni fyddai'n well cynyddu mesurau monitro i ddal y rhai hynny sy'n torri'r rheolau presennol?**

Bydd y cynnig yn arwain at oblygiadau annisgwyl sylweddol. Byddant yn arwain y gwartheg oddi ar yr ucheldir a byddwn ni'n colli'r arferion pori cymysg. Nid yn unig y bydd hyn yn golygu colli cynefinoedd a rhywogaethau, ond bydd hefyd yn effeithio ar yr economi ehangach trwy leihau taliadau i fasnachwyr amaethyddol, milfeddygon, peiriannau a chwmnïau gwasanaethu peiriannau (a cholledion swyddi yn y pen draw).

**Nid oes tystiolaeth y gellir cyfiawnhau dull Cymru gyfan, nac ychwaith y byddai hynny'n effeithiol hyd yn oed, ond mae'r gost i'r diwydiant ffermio, cymunedau lleol a'r gadwyn gyflenwi ehangach yn gwrthbwyso unrhyw fuddion canfyddedig i ansawdd dŵr. Nid yw enghreifftiau o ddeddfwriaeth UE anwadal, anhyblyg a hen ffasiwn yn briodol ar ôl Brexit nac ychwaith yng Nghymru lle y dylai'r pwyslais fod ar nodau ar y cyd a chydweithio.**

**Partneriaeth Pennal Pennal Machynlleth**

**Mawrth 1, 2021.**

**COMMENT ON NVZ PROPOSAL**

We are a community group led by farmers living and working near the Dyfi Estuary.

**The latest NVZ (nitrate vulnerable zones) proposals sound a death-knell for small farmers in Wales as we would have to invest an average of at least £50,000 in new storage facilities. This is beyond the means of most of us who already can only scrape a living from the land. This, combined with the on-set of a new post-Brexit funding scheme, makes us fear for the future of our livelihood, families, communities and culture (particularly the Welsh language).**

We understand that our actions can affect the land around us and are careful to minimise the effects of our farming methods and behaviours. We have been successful in doing that – two latest ecological surveys we have commissioned relating to our local rivers and our birds show that we have a fantastic level of biodiversity which reflect high quality water, air and habitat as well as the care that farmers take of their land for our current and future generations.

The levels of indicator invertebrates showed **the Dyfi and Cwrt rivers to have "high quality" clean water and also the bird count found we had the highest number of bird species** of any of the sites surveyed in the Cambrian Mountains.

So we must be doing something right.

**Why impose draconian measures which penalise all of us just to target the few who do not comply?**

**Is it not better to increase monitoring measures to catch those who breach the existing rules?**

This proposal will have major unforeseen consequences. They will drive the cattle out of the uplands and we will lose the mixed stock grazing. Not only does this mean a loss of habitat and species but a knock-on effect on the wider economy through reduction in payments to agricultural merchants, vets, machinery and servicing companies (and ultimately loss of jobs).

**There is no evidence an All-Wales approach can be justified or will even be effective but the cost to farming, rural communities and the wider supply chain greatly outweigh any perceived benefits to water quality. Unwieldy, inflexible and out-dated examples of EU regulation are not appropriate post Brexit or in a Wales where the emphasis is supposedly on joint goals and co-operation.**

**Partneriaeth Pennal Pennal Machynlleth**

**March 1, 2021.**